# Amgueddfa Wlân Cymru

amgueddfa cymru
national museum wales



# Gwybodaeth gefndir

Yn hanesyddol, y diwydiant gwlân oedd y pwysicaf a'r mwyaf helaeth o ddiwydiannau Cymru.

Ar un adeg, roedd pentref hardd Dre-fach Felindre yn Nyffryn Teifi wrth wraidd y diwydiant gwlân ffyniannus a dechreuwyd ei alw'n 'Huddersfield Cymru'.

Hen felin wlân y Cambrian yw cartref Amgueddfa Wlân Cymru ac fe gafodd ei hail-agor yn 2004 ar ôl gwaith ailddatblygu helaeth. Erbyn hyn, mae'n lle arbennig sydd â stori gyfareddol i'w hadrodd.



## Beth welwn ni yno?

Mae Amgueddfa Wlân Cymru yn adrodd hanes y diwydiant gwlân yng Nghymru a'i effaith ar Ddyffryn Teifi yn ystod y 19eg a'r 20fed ganrif yn benodol.

Gwnaed crysau, siolau, blancedi, carthenni, a sanau gwlanen yma, a'u gwerthu yn yr ardal wledig o'i gwmpas – ac yng ngweddill y byd.

Yng nghwmni ein crefftwyr profiadol, cewch ddilyn y broses o gnu i garthen wrth iddynt arddangos yr offer hanesyddol, ac olrhain hanes melin y Cambrian.
















# Pa stori ydym ni'n ei hadrodd?

Mae Amgueddfa Wlân Cymru yn adrodd stori cynnydd a chwymp y diwydiant gwlân yn Nyffryn Teifi, yn y gorllewin.

Cafodd sawl ffactor effaith ar hynt a helynt y diwydiant yn yr ardal leol:

**Datblygiadau technolegol:**

- yn lle'r olwyn nyddu oedd yn cynhyrchu un edau, daeth y Mul Nyddu oedd yn cynhyrchu 400 edafedd
- daeth y bwyler nwy i gymryd lle'r olwyn ddŵr oedd yn gyrru'r peiriannau
- yn lle'r gwŷdd llaw daeth gwŷdd peiriannol oedd yn gallu cynhyrchu mwy o frethyn yn gyflymach
- yn lle'r batiau cribo daeth peiriant gribo oedd eto'n golygu y gellid cynhyrchu mwy.

**Lleoliad:**

- Roedd afonydd chwim yn troi'r olwynion dŵr ac yn golchi'r brethyn a'r cnu
- Roedd rhwydwaith o reilffyrdd yn cysylltu Henllan a Chastellnewydd Emlyn ag ardaloedd diwydiannol Cymru a thu hwnt
- Roedd y deunydd crai ar gael – digon o ddefaid mewn ardal wledig
- Roedd llawer o bobl yr ardal eisoes yn gallu nyddu, gwehyddu a chynhyrchu brethyn ar raddfa fechan yn y cartref, felly roedd y sgiliau angenrheidiol ganddynt.

**Yr effaith ar y gymuned leol:**

Ar ei anterth, roedd gan y diwydiant gwlân yn Nyffryn Teifi tua 24 o felinau mewn milltir sgwâr a chafodd hyn effaith ar y gymuned leol. Cafwyd cynnydd yn y digwyddiadau cymdeithasol e.e. y band pres, corau, chwaraeon, neuadd ddawns, siopau a banc, eglwys a chapel, yr undebau llafur – roedd y pentref yn debycach i bentrefi glo'r De nag i bentref bach gwledig.










## Y diwydiant gwlân yn yr 20fed ganrif

Tua diwedd y 19eg ganrif, roedd y diwydiant gwlân ar ei anterth. Ond erbyn dechrau'r 20fed ganrif, roedd yn dechrau dirywio. Gyda dyfodiad y Rhyfel Byd Cyntaf, adfywiwyd y diwydiant i rai graddau oherwydd yr angen i gynhyrchu brethyn ar gyfer y rhyfel. Fodd bynnag, wedi hynny, parhaodd y dirywiad a bu llawer o danau dirgel yn y melinau lleol. Cafwyd hwb arall i'r diwydiant eto gyda dyfodiad yr Ail Ryfel Byd, ond ni pharodd y llwyddiant ac roedd y diwydiant yn wynebu ei dranc.

Am gyfnod byr yn y 1960au, bu ffasiwn – dan ddylanwad Mary Quant – o ddefnyddio brethyn Cymreig ym Myd Ffasiwn ond eto, ni pharodd y cynnydd.

Erbyn heddiw, dim ond dwsin o felinau sy'n dal ar waith yng Nghymru gyfan. Serch hynny, mae tipyn o ddiddordeb o hyd ym mlancedi a charthenni Cymreig.



o Gasgliad
Dr Harri

Am ragor o wybodaeth, ewch i
**www.amgueddfacymru.ac.uk/gwlan/addysg**